**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-253-2023

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

21 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth,

**Amserlen cyllideb 2024-25**

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf, sy'n mynd i'r afael â materion a godwyd yn llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf y Pwyllgor Cyllid at y Pwyllgor Busnes ynghylch amserlen cyllideb 2024-25.

Rwyf wedi amgáu copi o'm llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf, sy'n ymateb i'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid.

Mae ansicrwydd ac amseriad hwyr digwyddiadau cyllidol olynol Llywodraeth y DU wedi cael effaith andwyol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru sy'n paratoi eu cynlluniau gwariant, yn ogystal ag ar gyrff eraill sy'n dibynnu ar benderfyniadau amserol, megis cyrff a noddir yn gyhoeddus ac awdurdodau lleol. Mae amseriad hwyr y digwyddiadau cyllidol hyn hefyd wedi arwain at amserlenni cyllidebol byrrach, gan leihau'r amser sydd ar gael i'r Senedd ac eraill sy'n dymuno craffu ar ein cynlluniau gwariant.

Rwyf wedi codi'r pryderon hyn yn uniongyrchol gyda Phrif Ysgrifenyddion olynol y Trysorlys mewn gohebiaeth ac ochr yn ochr â'r Gweinidogion Cyllid datganoledig eraill yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Cyllid am ei ymdrechion i godi hyn gyda Llywodraeth y DU.

Byddaf yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ymrwymo i gyhoeddi ei Chyllideb yr Hydref cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, o ystyried amseriad digwyddiadau cyllidol hydref y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r cyd-destun cyllidol ansicr, mae'n ddoeth bod yn barod am y posibilrwydd o Gyllideb Hydref hwyr gan y DU eto eleni.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae sefydlu un fframwaith cyllidol yn y DU, sy'n seiliedig ar anghenion, y cytunir arno gan bob llywodraeth ac a gaiff ei weithredu a'i warantu'n annibynnol, yn parhau i fod yn un o nodau hirdymor Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer penderfyniadau cyllidol a wneir ledled y DU, sy'n parchu'r effaith ar gynllunio ariannol yn y llywodraethau datganoledig.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**